AI MEWN DYSGU AC ADDYSGU

Dod ag AI cysgodol i'r amlwg

Trafodaeth 20 munud i staff er mwyn deall sut mae AI eisoes yn cael ei ddefnyddio ar draws ysgol neu goleg, pam mae pobl yn ei ddefnyddio, a lle gall fod angen arweiniad neu gymorth cliriach.

Pwrpas

Gall AI eisoes gael ei ddefnyddio wrth gynllunio gwersi, gwahaniaethu, cyfieithu, adolygu, ymchwilio, hygyrchedd, gweinyddu a gwaith sy'n gysylltiedig ag asesu. Gall rhywfaint o'r defnydd hwn ddigwydd y tu allan i systemau, polisïau neu oruchwyliaeth sefydliadol y cytunwyd arnynt.

Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu tîm staff i wneud yr arfer presennol yn weladwy cyn penderfynu beth i'w annog, ei adolygu neu ei newid.

MAN CYCHWYN

Trafodaeth am ymarfer yw hon, nid archwiliad o gydymffurfiaeth.

Erbyn diwedd yr 20 munud

1. **Mapio'r defnydd presennol**
   Nodi offer, nodweddion a defnyddiau cyffredin.
2. **Deall yr angen**
   Gofyn pa broblem mae staff neu ddysgwyr yn ceisio ei datrys.
3. **Cytuno ar y camau nesaf**
   Gwahaniaethu rhwng ymarfer defnyddiol a meysydd sydd angen eu gwirio neu eu newid.

Awgrym: Gall ymatebion dienw helpu i ddod ag arbrofi i'r amlwg na fyddai staff fel arall yn teimlo'n gyfforddus yn ei drafod.

S Gwirio'n feirniadol
Cwestiynwch allbynnau AI a'u gwirio.

A Asesu data
Ystyriwch pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu.

F Dilyn y llif
Deallwch ble mae data, cyfarwyddiadau ac ymddiriedaeth yn teithio.

E Gwerthuso gweithredoedd
Ystyriwch ganlyniadau a goruchwyliaeth ddynol.

CANLLAW I'R HWYLUSYDD

Taflen 20 munud

CYFANSWM: 20 MUNUD

Cadwch hanner cyntaf y gweithgaredd yn archwiliadol. Gall penderfyniadau am gymeradwyo offer, polisi ac asesu risg manwl ddilyn ar ôl i'r grŵp ddeall beth sy'n digwydd mewn gwirionedd.

0-3 mun

CAM 1

Beth sy'n cyfrif fel defnyddio AI?

Holwch ble gallai AI eisoes ymddangos yn ystod y diwrnod gwaith. Cynhwyswch sgwrsfotiaid amlwg yn ogystal â nodweddion AI sydd wedi'u hymgorffori mewn chwilio, offer cynhyrchiant, llwyfannau dysgu a dyfeisiau.

Enghreifftiau: cynllunio, gwahaniaethu, cyfieithu, crynhoi, delweddau, cyflwyniadau, adolygu, hygyrchedd, chwilio a gweinyddu.

3-8 mun

CAM 2

Beth rydym eisoes yn ei ddefnyddio?

Yn unigol neu mewn parau, enwch offer AI neu nodweddion AI y mae pobl wedi rhoi cynnig arnynt. Ar gyfer pob enghraifft, nodwch beth roedden nhw'n ceisio ei gyflawni ac a oedd yn helpu. Mae arbrofi personol yn cyfrif.

Holwch: Pa offeryn neu nodwedd? Beth oedd y dasg? A wnaeth helpu: do, i ryw raddau, na, neu ddim yn siŵr?

8-13 mun

CAM 3

Defnyddio AI SAFE

Dewiswch un neu ddwy enghraifft wir o'r drafodaeth. Ewch drwy Gwirio'n feirniadol, Asesu data, Dilyn y llif a Gwerthuso gweithredoedd. Canolbwyntiwch ar y dasg, y data dan sylw, y systemau dan sylw a'r canlyniadau.

Defnyddiwch y daflen waith ar dudalen 3.

13-17 mun

CAM 4

Nodi'r cyfleoedd

Gofynnwch beth mae'r defnydd presennol o AI yn ei ddweud wrthych am anghenion staff neu ddysgwyr. Gall arbrofi dro ar ôl tro dynnu sylw at angen heb ei ddiwallu yn hytrach na mater o ddewis offeryn yn unig.

Chwiliwch am themâu fel llwyth gwaith, hygyrchedd, anghenion dysgu ychwanegol, gwahaniaethu, cyfieithu, adolygu, ymchwil neu adborth.

17-20 mun

CAM 5

Cytuno ar dri cham nesaf

Gorffennwch gyda CADW, GWIRIO a NEWID. Cofnodwch un arfer sy'n ymddangos yn ddefnyddiol, un mater sydd angen ei ymchwilio ymhellach ac un arfer neu broses y dylid ei newid.

Defnyddiwch y daflen weithredu ar dudalen 4 a nodwch pwy fydd yn dilyn y camau lle bo angen.

NODYN I'R HWYLUSYDD

Peidiwch â throi'r cam mapio yn brawf o ba mor dda mae cydweithwyr eisoes yn gwybod pob rheol. Mae ansawdd yr ymarfer yn dibynnu ar bobl yn barod i ddisgrifio arfer go iawn, gan gynnwys arbrofion nad ydynt yn siŵr amdanynt.

CAM 3

Defnyddiwch AI SAFE ar un enghraifft wir

Dewiswch un defnydd o AI sydd eisoes wedi dod i'r amlwg yn y drafodaeth. Ewch drwy'r pedwar cwestiwn gyda'ch gilydd. Nid creu sgôr risg yw'r nod. Y nod yw gwneud y penderfyniadau pwysig yn weladwy.

OFFERYN, NODWEDD NEU DDEFNYDD O AI

S Gwirio'n feirniadol

- Beth mae'r AI yn ein helpu i'w wneud?
- Sut byddwn yn gwybod a yw'r allbwn yn gywir, yn briodol ac yn ddefnyddiol?
- A yw AI yn cefnogi meddwl, neu'n disodli rhan bwysig ohono?

NODIADAU

A Asesu data

- Pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu â'r system AI?
- A yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol, gyfrinachol, wybodaeth am ddysgwyr neu ddeunydd sydd heb ei gyhoeddi?
- A ellid cyflawni'r un dasg gan ddefnyddio llai o ddata?

NODIADAU

F Dilyn y llif

- Pa wasanaeth, nodwedd neu lwyfan AI sydd dan sylw?
- A yw'n cael ei reoli gan yr ysgol neu'r coleg, neu a yw'n wasanaeth personol neu gyhoeddus?
- A all gael mynediad at ffeiliau, e-bost, cyfrifon neu systemau eraill?

NODIADAU

E Gwerthuso gweithredoedd

- Beth sy'n digwydd oherwydd allbwn yr AI?
- A allai ddylanwadu ar adborth, asesu, cyfathrebu neu benderfyniad?
- Ble mae barn ddynol ystyrlon a goruchwyliaeth yn parhau?

NODIADAU

Un cwestiwn olaf: a fyddem yn gyfforddus yn egluro'r defnydd hwn o AI i ddysgwr, rhiant neu ofalwr, cydweithiwr neu arweinydd ysgol?

CAM 5

O drafodaeth i weithredu

Cofnodwch y canlyniad heb droi'r ymarfer yn archwiliad o gydymffurfiaeth. Mae'r tri phennawd yn helpu i wahanu ymarfer defnyddiol oddi wrth ansicrwydd a materion sydd angen newid clir.

CADW

Pa arfer presennol o ddefnyddio AI sy'n ymddangos yn ddefnyddiol, yn gymesur ac yn addysgol briodol?

GWIRIO

Beth sydd angen ei ymchwilio ymhellach, neu sydd angen arweiniad neu adolygiad o safbwynt diogelu, asesu neu ddiogelu data?

NEWID

Beth ddylai stopio, newid neu symud i broses neu wasanaeth cymeradwy?

Dewisol: cofrestr syml o ddefnydd AI

Gall cofrestr syml helpu arweinwyr i ddeall pa offer sy'n cael eu defnyddio, at ba ddiben a lle mae angen camau dilynol. Cadwch hi'n gymesur a'i hadolygu wrth i offer ac arferion newid.

Cyd-destun Cymru: mae Hwb yn argymell bod lleoliadau addysg yn deall ac yn mapio'r defnydd presennol o AI.

Offeryn / nodwedd AI	Pwy sy'n ei ddefnyddio?	At ba ddiben?	Wedi'i gymeradwyo?	Data dan sylw?	Camau pellach

Y nod yw symud o ddefnydd AI anweledig i ddefnydd AI gwybodus.

Defnyddiwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu i lywio polisi, dysgu proffesiynol, caffael ac ymarfer mwy diogel yn yr ystafell ddosbarth.

AI SAFE
Gwirio'n feirniadol
Asesu data
Dilyn y llif
Gwerthuso gweithredoedd